



SWYDD DDISGRIFIAD

Swyddog Cyfleon – Academi Cyfleon

GYFRIFOL I:	Arweinydd tîm Academi Cyfleon
LLEOLIAD:	Ar draws canolfannau Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli
ORIAU	37 awr
CYFLOG:	Graddfa B3 £18,927.16 - £20,248.56
CONTRACT:	Hyd at Mehefin 2022

PWRPAS Y SWYDD

Cefnogi pobl ifanc ar eu taith o gefnogaeth i gyflogaeth.

I gynorthwyo gyda'r gwaith i redeg prosiect Cronfa Cynhwysiant (Active Inclusion) GISDA sef Academi Cyfleon

Pwrpas y swydd yma fydd gweithio a'r prosiect cyfleon GISDA i gallu cynnig y cymorth gorau i bobl ifanc i chwilio am waith, i chwilio am gyfleon gwirfoddoli neu i ddechrau cwrs mewn addysg uwch / sefydliad addysgol.

Mae GISDA yn darparu hyfforddiant a gweithdai ac yn arbenigo mewn darparu addysg amgen i blant a phobl ifanc. Rydym yn awyddus i gryfhau y gwaith gan gynnig rhagor o gyfleon i bobl ifanc. Bydd angen codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth a mesur effaith y gwaith.

Yn dilyn cyfnod Covid-19 mae sefyllfa pobl ifanc yn dra difrifol ac mae angen symud ar fyrder i sicrhau ein bod yn gallu cynnig cyfleon a gobaith i bobl ifanc. Bydd cyd weithio gyda phartneriaid addysgiadol a'r byd gwaith yn hanfodol.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Annog pobl ifanc i ymuno a'r prosiect
- Cynorthwyo gyda rhediad o hybiau bobl ifanc yng Nghaernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog ac fod ar gael ar y rota.

- Cydlynu gweithdai a sesiynau – creadigol, addysgol, sgiliau annibynnol a cyflogadwyedd.
- Cynorthwyo'r arweinydd i chydlynu a chysoni achrediadau a deunyddiau dysgu GISDA.
- Cefnogi pobl ifanc ar eu taith, bydd adnabod hyn yn ein galluogi i fuddsoddi yr adnoddau sydd angen i symud y person ifanc ymlaen.
- Ymgwyfarwyddo gyda gweithdrefnau Agored Cymru – cwblhau hyfforddiant gyda pobl ifanc
- Ymgwyfarwyddo gyda system Virtual College a cwblhau hyfforddiant gyda pobl ifanc
- Dilyn arweiniad Arweinydd Tim Cyfleon a Rheolwr Cefnogi a Datblygu a'u cefnogi gyda'r gwaith o ddatblygu'r prosiect.
- Gallu rhedeg gweithdai a hyfforddiant ar draws ysgolion, mudiadau a chanolfannau yn ôl yr angen
- Bydd cydweithio gyda Gweithwyr Allweddol a Gweithwyr Prosiect eraill yn GISDA yn allweddol i lwyddiant y gwaith
- Cydweithio gyda phartneriaid e.e Gyrfaoedd Cymru, DWP, Ganolfan Waith, Ysgolion, Colegau, mudiadau 3ydd sector eraill sydd yn gweithio mewn meysydd sydd yn ymwneud gydag addysg amgen pobl ifanc.
- Creu cysylltiadau gyda cyflogwyr lleol er mwyn symud pobl ifanc ymlaen.
- Creu cysylltiadau gyda ysgolion a cholegau lleol.
- Cydweithio a cynorthwyo gyda cynllun Kickstart.
- Defnyddio Technoleg i uchafu'r gwaith mewn ffordd effeithiol
- Hyrwyddo'r cyfleon ar wefannau cymdeithasol
- Creu deunydd marchnata ar gyfer sesiynau ac i hyrwyddo'r prosiect.
- Dilyn canllawiau grant Active Inclusion ar hyd y prosiect.
- Cwblhau gwaith papur Active Inclusion gyda bob person ifanc.
- Cofnodi manylion pobl ifanc ar system INFORM.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- I weithio o fewn fframwaith PIE, yn unol a model therapiwtig GISDA.
- I adeiladu perthynas gref, iach ,a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi y cyfle iddynt ymgysylltu/ a mynegi ei hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- I greu awyrgylch di sefydliad, saff a chroesawgar sydd yn rhoi y cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi ei teimladau /pryderon.
- I hyrwyddo ac annog pobl ifanc i ofalu am lles ei hunain a bod yn fwy annibynnol.
- I annog, ysgogi a credu mewn pobl ifanc .
- Ymddwyn fel rôl model i bobl ifanc gan ddangos ffyrdd 'pro social' o ddelio a phroblemau.
- Sefydlu perthnasau positif gyda pobl ifanc a chynnig agwedd gadarnhaol ddiamod.
- Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.

- Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, ddi-ragfarn, ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r cyhoedd / asiantaethau eraill.
- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol y Cwmni.
- Hyrwyddo nod ac amcanion y Cwmni.
- I gydymffurfio ag ymarfer Cyngor Gofal Cymru tra'n gweithredu unrhyw ddyletswyddau/cyfrifoldebau.
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.
- Ymlynu at holl bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol y Cwmni.
- Cyfrannu at sesiynau arolygaeth.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol ac mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau.

Disgwylir i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; pan fo raid iddynt newid y tu fewn i'r gyfundrefn er mwyn cwrdd â gofynion ac anghenion y gwasanaeth.

MANYLION PERSON

HANFODOL	
Cymwysterau a Phrofiad	
NVQ 2 neu gyfatebol mewn maes perthnasol	
Profiad o weithio gyda phobl ifanc bregus	
Gweithio mewn dull sydd yn asesu anghenion	
Sgiliau gweinyddu cryf	
Sgiliau	
Hyder i gynnal gweithdai a hyfforddiant	
Gweithio mewn grwpiau a sgiliau hwyluso	
Rhwydweithio a rhyngweithio	
Cyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y Gymraeg neu Saesneg	
Y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth i gynnig gwelliannau	
Defnyddio meddalwedd fel Word , Excel , Outlook a PowerPoint	
Blaenoriaethu a threfnu gwaith	
Sgiliau rhyngpersonol dda.	
Y gallu i weithio gyda phobl ifanc bregus gydag anghenion dwys.	
Y gallu i ddelio a gwybodaeth gyfrinachol a sensitif.	
Y gallu i weithio o dan bwysau yn hyderus	
Gweithio ar ben dy hun neu fel rhan o dîm	
Y gallu i gynrychioli'r cwmni	
Trwydded yrru llawn	
DYMUNOL	
<i>Profiadau / Cymwysterau</i>	
NVQ 4 yn gweithio gyda phobl ifanc	
Hyrwyddo, marchnata a datblygu gwasanaethau	
Asesu risg a'i rheoli	
Datblygu pob agwedd o'r gwasanaeth, ar ewyllys i gyfrannu ar faterion sydd yn wynebu'r cwmni	
Cyfrannu ar bolisiau a gweithdrefnau	
Datblygu, rheoli / monitro systemau a phrosiectau	
Profiad o weithio a'r prosiect sydd yn cael ei gyllido gan grant	
Sgiliau	
Ymchwilio i gadw i fyny gyda deddfwriaeth neu unrhyw weithdrefnau newydd	
Trefnus.	